# PWYLLGOR LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgora 1a, Neuadd y Sir, Rhuthun, Dydd Mercher, 21 Mai 2014 am 9.30 am.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Joan Butterfield, Peter Duffy, Martyn Holland, Gwyneth Kensler (Is-Gadeirydd) a/ac Jason McLellan (Cadeirydd) a Mr P. Whitham (Aelod Lleyg).
Roedd y Cynghorwyr M.Ll. Davies a J. Thompson-Hill yn bresennol fel arsylwyr.

## HEFYD YN BRESENNOL

Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd (GW), Pennaeth Archwilio Mewnol (IB), Pennaeth Busnes, Cynllunio a Pherfformiad (AS), Prif Gyfrifydd (RW), Rheolwr Eiddo (DL), Rheolwr y Tîm Cyfleusterau a Chynnal a Chadw (IT), Cynrychiolwyr Swyddfa Archwilio Cymru (AV a GB) a Gweinyddydd y Pwyllgor (CIW).

## 1 PENODI CADEIRYDD

***PENDERFYNWYD –*** *penodi'r Cynghorydd J.M. McLellan yn Gadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ar gyfer y flwyddyn nesaf.*

## 2 PENODI IS-GADEIRYDD

***PENDERFYNWYD –*** *penodi'r Cynghorydd M.L. Holland yn Is-gadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ar gyfer y flwyddyn nesaf.*

## 3 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwr(wyr)
Stuart Davies

## 4 DATGAN CYSYLLTIAD

Ni wnaeth yr un Aelod ddatgan gysylltiad personol na niweidiol mewn unrhyw fusnes y nodir ei fod i gael ei ystyried yn y cyfarfod hwn.

## 5 MATERION BRYS

Ni chodwyd dim eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel mater o frys yn unol ag Adran 100B(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol, 1972.

## 6 COFNODION

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol a gynhaliwyd ar 15$^{fed}$ Ebrill, 2014.

Cywirdeb:- Nodwyd bod Mr P. Whitham, Aelod Lleyg yn bresennol yn y cyfarfod o’r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol a gynhaliwyd ar 15fed Ebrill, 2014.

Materion yn codi:-

11. Cynrychiolwyr yr Aelodau ar Gyrff Allanol – Mewn ymateb i gais gan y Cynghorydd M.L. Holland, cytunodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd i gylchredeg copïau o’r dogfennau oedd yn ymwneud â chyflwyniad ynglŷn â Chyrff Allanol a gynhaliwyd yng Nghaledfryn, Dinbych.

***PENDERFYNWYD –** derbyn a chymeradwyo’r cofnodion fel cofnod gwir a chywir, yn amodol ar yr uchod.*

## 7 ADOLYGIAD O GAFFAEL – GWAITH CYNNAL A CHADW ADEILADAU YSGOLION

Roedd adroddiad gan Swyddfa Archwilio Cymru (SAC), ar yr adolygiad o gaffael ar gyfer Gwaith Cynnal a Chadw Adeiladau ysgolion wedi’i gylchredeg yn flaenorol.

Cyflwynodd cynrychiolydd SAC (CSAC) yr adroddiad, Atodiad 1, a ofynnai am roi ystyriaeth i’r argymhellion ac am ymatebion gan y Cyngor. Tynnwyd sylw’r Aelodau at y crynodeb o’r adroddiad, tudalen 22, a roddai fanylion pwrpas y gwaith a wnaed ar ôl cael gohebiaeth gan gontractwr ynglŷn â materion penodol o safbwynt y trefniadau caffael ar gyfer gwaith cynnal a chadw adeiladau ysgolion, ac agweddau ehangach ar y drefn gaffael yn benodol o safbwynt contractau adeiladu. Rhoddodd CSAC grynodeb o gasgliadau’r adroddiad i’r Pwyllgor.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol, codwyd y cwestiynau a’r ystyriaethau canlynol, a chafodd ymatebion eu darparu:-

- Rhoddodd y Rheolwr Eiddo (RhE) fanylion ynglŷn â nifer y Contractwyr sydd ar y Rhestr Gymeradwy, y meini prawf a’r broses ar gyfer cynnwys Contractwyr ar y Rhestr hon, gofynion yr holiadur cyn gymhwyso a’r broses ar gyfer tynnu Contractwyr oddi ar y Rhestr a’u hadfer i’r rhestr.
- Cyfeiriwyd at bwysigrwydd yr adborth a geir gan ysgolion am safon y gwaith a wna’r contractwyr, a’r posibilrwydd o wneud archwiliadau dirybudd i archwilio’r gwaith a wnaed.
- Rhoddodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd (PGCD) fanylion y goblygiadau cyfreithiol o safbwynt atebolrwydd cyhoeddus, a’r cosbau y gellid eu rhoi, os bydd gweithwyr y Cyngor neu Gontractwyr yn torri neu’n anwybyddu rheolau a rheoliadau statudol wrth wneud gwaith. Pwysleisiwyd yr angen i sefydlu’r drefn a’i rheoli’n ddigonol. Pwysleisiodd y RhE bwysigrwydd adrodd am unrhyw achosion o dorri rheolau a rheoliadau, megis Rheoliadau Iechyd a Diogelwch, er mwyn sicrhau y gellid rhoi’r cosbau priodol a dileu’r risgiau.
- Sicrhaodd y RhE y Pwyllgor y byddai’r fframwaith ar gyfer hysbysebu am Gontractwyr i’w cynnwys ar y Rhestr Gymeradwy’n cael ei adolygu ar ôl penderfynu pa feysydd fyddai’n cael eu cynnwys.
- Cyfeiriodd CSAC at y sylwadau a wnaed o safbwynt yr angen i wella’r drefn rheoli ansawdd, o safbwynt prisio, a chyfathrebu a hefyd at bennu, dyrannu a monitro gwaith sy’n rhan o’r broses. Pwysleisiodd y Cynghorydd J. Butterfield

bwysigrwydd rhoi cefnogaeth i gymunedau lleol yn Sir Ddinbych wrth lunio'r rhestr gymeradwy.

- Cododd Mr P. Whitham y ffaith nad oedd dim tystiolaeth o'r defnydd presennol o gydgrynhoi, a chadarnhaodd CSAC y gallai hyn beri risg bosibl i'r Cyngor ond na chafodd ei ystyried fel rhan o'r adolygiad cwmpasu a oedd yn benodol iawn. Teimlai Mr Whitham y byddai rhoi ffrâm amser ar gyfer cyflwyno'r fframwaith yn hanfodol i'r Contractwyr priodol.
- Cyfeiriodd Mr Whitham at baragraff 25 ar dudalen 26 ac awgrymodd y dylai'r cyfeiriad at "drefniadau ar lefel leol i swyddogion ddatgan, rheoli a monitro perthnasoedd rhwng swyddogion y Cyngor a chontractwyr" hefyd gynnwys rhoddion a lletygarwch.
- Ymatebodd y RhE i gwestiwn gan Mr Whitham gan gadarnhau "o safbwynt disgwyliadau cleientiaid y byddai'r cyflenwad gwasanaethau'n cael ei adfer cyn gynted â phosib", tudalen 26, roedd pob cais yn cael ei drin fel gwaith adweithiol ac nid fel argyfwng.
- Cadarnhaodd y RhE y gellid defnyddio'r contractwyr a ffafrir gan ysgolion os oeddent ar y Rhestr Gymeradwy.
- Mynegodd y Cynghorydd P.C. Duffy bryderon nad oedd amcanbrisiau na dyfynbrisiau'n ofynnol am waith dan symiau penodol. Esboniodd y RhE fod y symiau wedi'u dynodi yn y rheolau caffael.
- Rhoddodd CSAC gadarnhad y byddai Adroddiad yr Adolygiad o Gaffael – Gwaith Cynnal a Chadw Adeiladau Ysgolion ar gael yn Gymraeg.
- Esboniwyd y byddai prisio contractau gyda'r nod o sicrhau gwasanaethau contractwyr lleol yn dibynnu'n bennaf ar bris ac ansawdd, gwerth gorau drwy faint gwaith a'r gallu i arddangos gwerth da am arian.
- Cytunodd y Pennaeth Archwilio Mewnol (PAM) a CSAC i gysylltu a chyflwyno adroddiad cynnydd dilynol ar y cyd gerbron cyfarfod 3$^{ydd}$ Medi, 2014 o'r Pwyllgor. Byddai'r adroddiad yn cynnwys ymateb y Cyngor i'r argymhellion a manylion y dyddiadau gweithredu.

Ar ôl trafod ymhellach:-

***PENDERFYNWYD*** *– bod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol:-*

*(a) yn derbyn yr adroddiad ac yn nodi'r argymhellion ynghyd ag ymatebion y Cyngor, ac*

*(b) yn cytuno bod y Pennaeth Archwilio Mewnol a Swyddfa Archwilio Cymru yn cyflwyno adroddiad ar y cyd gerbron cyfarfod 3$^{ydd}$ Medi, 2014 o'r Pwyllgor. Byddai'r adroddiad yn cynnwys ymateb y Cyngor i'r argymhellion a manylion y dyddiadau gweithredu*

## 8 DEDDF DIOGELU DATA

Roedd adroddiad gan y Pennaeth Busnes, Gwella a Moderneiddio (PBGM) wedi'i gylchredeg yn flaenorol.

Cyflwynodd y PBGM yr adroddiad oedd yn rhoi sylw i'r cyfnod o Ebrill, 2013 i Fawrth, 2014 a rhoddodd fanylion achosion o'r Cyngor yn torri'r Ddeddf Diogelu Data, achosion y bu'r Uwch Swyddog Risg Gwybodaeth yn ymchwilio iddynt. Cynhwysai hefyd gwynion am y Cyngor o safbwynt y ddeddfwriaeth Rhyddid

Gwybodaeth a gyfeiriwyd at y Comisiynydd Gwybodaeth, a darparai rhyw gymaint o wybodaeth am y ceisiadau Mynediad at Wybodaeth a wnaed i'r Cyngor. Dan Bolisi Diogelu Data'r Cyngor mae'n rhaid cyflwyno adroddiad cynnydd blynyddol gerbron y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol er mwyn i'r Aelodau gadw golwg ar y broses.

Bu'r diffygion yn y system rheoli gwybodaeth yn risg ers blynyddoedd lawer ac roedd dull newydd wedi'i gyflwyno, gan gynnwys penodi Rheolwr Gwybodaeth Gorfforaethol ac adolygu polisïau allweddol, yn ymwneud yn benodol â Diogelu Data a Mynediad at Wybodaeth. Ar ôl yr adolygiadau, roedd y Rheolwr Gwybodaeth Gorfforaethol wedi cyhoeddi dull rheoli gwybodaeth strategol yn Sir Ddinbych a byddai'n adrodd ar y cynnydd gerbron y Pwyllgor yn rheolaidd.

Esboniodd y PBGM fod y datblygiadau wedi lleihau'r risgiau i'r Cyngor a bod y sgôr risg ar y Gofrestr Risg Gorfforaethol yn awr wedi'i lleihau. Yn allweddol i'r gwelliannau yr oedd datblygu gwell hyfforddiant, gwell eglurder ar ddefnyddio systemau, a thrylwyredd wrth adrodd a rheoli gwybodaeth. Ochr yn ochr â'r Swyddog Diogelu Data, roedd gan yr Uwch-berchennog Risg Gwybodaeth (UbRG) gyfrifoldeb penodol i sicrhau bod gwybodaeth a ddelir gan y Cyngor yn cael ei rheoli'n ddiogel, yn effeithiol ac yn unol â'r ddeddfwriaeth. Roedd y systemau a wnaed i sicrhau bod y rolau'n cael eu cyflawni'n llwyddiannus yn ddibynnol ar fod yn dryloyw ac agored, ac roedd yn bwysig dros ben bod yr Aelodau'n cadw golwg ar y broses.

Ffurfiai'r adroddiad ran o'r ymrwymiadau a wnaed ym mholisi Diogelu Data a pholisi Mynediad at Wybodaeth y Cyngor. Rhoddai'r atodiadau fanylion rhai o'r camau gweithredu allweddol dros y flwyddyn hyd at 31[ain] Mawrth 2014, gan ganolbwyntio ar yr achosion o dorri'r amodau Diogelu Data yr adroddwyd amdanynt wrth yr UbRG (Atodiad A). Cynhwyswyd gwybodaeth arall i hysbysu'r Aelodau: rhestr o'r cwynion a wnaed i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (SCG) am y Cyngor, a'r canlyniad (Atodiad B); ystadegau'n ymwneud â derbyn ceisiadau Mynediad at Wybodaeth (Atodiad C) ynghyd â thabl yn dangos yr anghydfodau y bu'r Panel Mynediad at Wybodaeth yn delio â nhw, a'r canlyniadau (Atodiad D).

Ni oedd dim un o'r achosion o'r Cyngor yn torri'r Ddeddf Diogelu Data yn achosion sylweddol, er yr ystyriwyd bod rhai yn ddigon difrifol i adrodd amdanynt wrth yr SCG. Un nodwedd gyffredin oedd rhoi cyfeiriadau anghywir ar lythyron, fel bod gwybodaeth bersonol yn mynd at y derbynnydd anghywir. Gallai hyfforddiant a gwell trefn wirio helpu i leihau'r camgymeriadau hyn ac, yn y pendraw, byddai defnyddio systemau awtomatig fwyfwy yn lleihau hyn ymhellach. Roedd y Cyngor cyn belled wedi osgoi colli llawer o wybodaeth bersonol, rhywbeth oedd wedi digwydd i lawer o sefydliadau, gan arwain at gosbau sifil sylweddol yn aml. Er hynny, yr unigolion yr aeth eu data ar goll neu y datgelwyd eu data mewn camgymeriad oedd wedi dioddef y caledi mwyaf. Wrth i'r ymwybyddiaeth ymysg staff gynyddu a'r systemau ar gyfer rheoli gwybodaeth wella'n raddol, byddai'r achosion hyn yn dod yn llai cyffredin.

Roedd manylion nifer y ceisiadau Mynediad at Wybodaeth a ddaeth i law'r Cyngor wedi'u cynnwys yn yr adroddiad. Roedd manylion y pum maes yr ymholwyd amdanynt amlaf dros y misoedd diwethaf hefyd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad, a

manylai Atodiad D am ffynonellau'r ceisiadau Mynediad at Wybodaeth i'r Cyngor yn ôl y math o ymgeisydd.

Mewn rhai achosion, câi penderfyniadau am fynediad at wybodaeth eu herio gan yr ymgeisydd neu ni chaed cytundeb yn fewnol ynglŷn ag a ddylid rhyddhau gwybodaeth a ddelir gan y Cyngor ai peidio. Adolygwyd yr achosion hyn gan Banel; wedi'i gadeirio gan y PGCD, ac roedd rhestr o'r achosion a adolygwyd ynghyd â'r canlyniadau wedi'u cynnwys yn Atodiad E.
Esboniodd Mr P. Whitham ei fod yn siomedig nad oedd materion a godwyd yn yr Hyfforddiant Mynediad at Wybodaeth yn Chwefror, megis rheoli a rhagweithio i atal a lleihau'r ceisiadau a ddaw i law, wedi'u hadlewyrchu yn yr adroddiad. Esboniodd y PBGM fod yr adroddiad yn ymwneud â gweithgaredd ac yn osgoi dyblygu gwaith a wnaed gan y Rheolwr Gwybodaeth Gorfforaethol. Byddai'r adroddiad y byddai e'n ei gyflwyno gerbron y Pwyllgor yn rhoi sylw i'r materion a godwyd. Cadarnhaodd fod y cynllun cyhoeddi a'r cofnod datgelu yn cael eu bwrw ymlaen. Amlinellodd y PGCD yr angen i ganfod maint a natur y wybodaeth y gellid ei rhyddhau i'r cyhoedd er mwyn ymateb yn agored ac yn dryloyw i geisiadau a ddaw i law gan y cyhoedd.

Ymatebodd y PGCD i bryderon a godwyd a rhoddodd fanylion y gwasanaeth cyfieithu a ddarparwyd drwy Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.

***PENDERFYNWYD*** – *bod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn derbyn ac yn nodi cynnwys yr adroddiad.*

**9 ADRODDIAD ARCHWILIO MEWNOL BLYNYDDOL 2013/14**

Roedd adroddiad gan y Pennaeth Archwilio Mewnol (PAM) a gynhwysai farn gyffredinol y PAM ar ba mor ddigonol ac effeithiol fu fframwaith llywodraethu, risg a rheolaeth y Cyngor yn ystod y flwyddyn ac sy'n hysbysu'r 'datganiad llywodraethu blynyddol' wedi'i gylchredeg yn flaenorol.

Dan Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (PSIAS) rhaid i'r 'Prif Swyddog Gweithredol Archwilio' gyflwyno barn archwilio mewnol flynyddol ac adroddiad y gallai'r Cyngor eu defnyddio i hysbysu ei ddatganiad llywodraethu. Cynhwyswyd Adroddiad Archwilio Mewnol 2013-14 fel Atodiad 1 ac mae'n nodi:-

- bod y PAM wedi darparu 'sicrwydd canolig' o safbwynt pa mor ddigonol ac effeithiol yw amgylchedd rheoli mewnol y Cyngor, gan gynnwys ei drefniadau ar gyfer llywodraethu a rheoli risg;
- nad oedd dim amodau ynghlwm wrth 'farn' y PAM;
- lefel y gwaith a wnaed gan Archwilio Mewnol i ddod i'r 'farn' gyffredinol hon;
- sut wnaeth Archwilio Mewnol gydymffurfio â'r PSIAS; a
- chrynodeb o berfformiad da Archwilio Mewnol yn ystod y flwyddyn.

Ar ôl trafodaeth fer:-

***PENDERFYNWYD*** – *bod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn derbyn ac yn nodi cynnwys yr adroddiad.*

## 10 CYNLLUN SICRWYDD BLYNYDDOL ARCHWILIO MEWNOL 2014/15

Roedd adroddiad gan y Pennaeth Archwilio Mewnol (PAM), a roddai fanylion y prosiectau Archwilio Mewnol arfaethedig ar gyfer y flwyddyn ac a fyddai'n caniatáu i'r PAM ddarparu 'barn' ar ba mor ddigonol ac effeithiol fu fframwaith llywodraethu, risg a rheolaeth y Cyngor yn ystod y flwyddyn wedi'i gylchredeg yn flaenorol.

Dan Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (PSIAS) rhaid i'r 'Prif Swyddog Gweithredol Archwilio' ddatblygu cynllun archwilio mewnol seiliedig ar risg sy'n rhoi ystyriaeth i'r gofyn i gyflwyno barn archwilio mewnol flynyddol ac adroddiad y gallai'r sefydliad eu defnyddio i hysbysu ei ddatganiad llywodraethu. Mae cylch gorchwyl y Pwyllgor yn mynnu ei fod yn ystyried strategaeth gynllunio Archwilio Mewnol.

Roedd y Pwyllgor wedi ystyried a rhoi sylwadau ar Strategaeth Archwilio Mewnol 2014-15 yn ei gyfarfod ar 15 Ebrill, 2014. Darparwyd trosolwg ar lle mae Archwilio Mewnol yn debygol o dreulio'i amser yn ystod 2014-15 ar ôl iddo symud i'r gwasanaeth Busnes, Gwella a Moderneiddio. Bryd hynny, roedd y PAM yn dal i ymgynghori â'r uwch reolwyr ar gynllun gweithredol manylach. Darparwyd crynodeb o Gynllun Sicrwydd Blynyddol Archwilio Mewnol 2014/15, Atodiad 1, a oedd yn cynnwys y cynllun gwaith arfaethedig ac yn caniatáu i'r PAM ddarparu 'barn' gyffredinol yn yr Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2014-15. Cadarnhawyd bod diweddariadau rheolaidd ar gynnydd gyda chyflwyno'r Cynllun yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor.

Hysbyswyd yr Aelodau bod y PAM wedi cyfarfod â holl aelodau'r Tîm Gweithredol Corfforaethol (TGC) a'r Uwch-dîm Arweinyddiaeth (UDA) i drafod y gwaith Archwilio Mewnol arfaethedig.

Rhoddwyd yr ymatebion canlynol i gwestiynau gan yr Aelodau:-

- Byddai nifer y dyddiau a ddyrannwyd i Dai Fforddiadwy a Glanhau Strydoedd yn ddigonol i ganfod unrhyw ddiffygion yn y ddarpariaeth gwasanaethau yn y priod feysydd. Cadarnhaodd y PAM y byddai materion yn ymwneud â pherfformiad ac arferion da yn cael eu harchwilio yn ystod y broses gwmpasu, ac y gellid addasu nifer y dyddiau a ddyrannwyd yn unol â hynny os oedd angen.
- Darparodd y PAM fanylion uchafswm capasiti gweithio'r gwasanaethau Archwilio Mewnol, o safbwynt niferoedd staffio.
- Esboniwyd nad oedd trefniadau llywodraethu o safbwynt sefydliadau hyd braich wedi'u cynnwys yn y Cynllun, ond y byddent yn cael eu cynnwys yn ddiweddarach. Amlinellodd y PAM i'r Pwyllgor y prosesau ar gyfer rhoi sylw i sefyllfaoedd brys a allai godi.

***PENDERFYNWYD** – bod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn derbyn ac yn nodi cynnwys yr adroddiad.*

## 11 CYFLWYNO LLYWODRAETHU DA A GWELLIANT PARHAUS

Roedd adroddiad gan y Pennaeth Archwilio Mewnol (PAM), a ddarparai'r ymgynghori terfynol gyda'r Pwyllgor ynglŷn â'r adroddiad hunanasesu ar drefniadau gwella a llywodraethu'r Cyngor ar gyfer 2013/14, wedi'i gylchredeg yn flaenorol.

Roedd yr adroddiad yn disodli Datganiad Llywodraethu Blynyddol y Cyngor drwy gyfuno'r hunanasesiad llywodraethu a'r hunanasesiad corfforaethol blaenorol. Roedd yn arfer da ymgynghori'n eang ar yr hunanasesu gyda'r Aelodau a'r uwch reolwyr a llunio 'datganiad llywodraethu blynyddol' (DLlB) a oedd yn ffurfio rhan o Ddatganiad Cyfrifon y Cyngor. Er hynny, bu rhyw gymaint o ddyblygu rhwng yr hunanasesu oedd yn angenrheidiol ar gyfer y DLlB a'r hunanasesiad corfforaethol a ganolbwyntiai fwy ar welliant parhaus. Felly, penderfynwyd cyfuno'r dogfennau i ddarparu dull arloesol a oedd yn arbed adnoddau ac yn darparu dull gweithredu cydgysylltiedig o hunanasesu yn y Cyngor.

Esboniodd y PAM fod Atodiad 1 yn darparu Dogfen ddrafft "Cyflwyno Llywodraethu Da a Gwelliant Parhaus" a oedd yn awr yn y camau ymgynghori olaf gyda'r Aelodau a'r uwch reolwyr. Cynhwyswyd mân newidiadau a byddai ffigurau perfformiad y chwarter diwethaf yn cael eu hychwanegu pan gânt eu cwblhau. Byddai gofyn i'r Prif Swyddog Gweithredol a'r Arweinydd lofnodi'r fersiwn derfynol erbyn 30ain Mehefin, 2014 a byddai'n cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor gyda'r Datganiad Cyfrifon ym Medi, 2014.

Hysbyswyd yr Aelodau y trafodwyd y ddogfen yn y:-

- Tîm Gweithredol Corfforaethol ar 17eg Mawrth, 2014
- Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ar 15fed Ebrill, 2014
- Briff i'r Cyngor ar 28ain Ebrill, 2014
- Uwch-dîm Arweinyddiaeth ar 1af Mai, 2014

Fe'i dosbarthwyd hefyd at Aelodau'r Cabinet a SAC i gael sylwadau arno.

Cyfeiriodd y PAM at ddau fater pwysig yn ymwneud â llywodraethu a gynhwyswyd yn yr adroddiad. Roedd y cyntaf yn ymwneud â chaffael gwasanaethau adeiladu a'r llall yn ymwneud â sefydliadau hyd braich, a darparodd grynodeb o'r wybodaeth a geir yn yr adroddiad.

Cyfeiriodd Mr P. Whitham at adroddiad SAC ar gaffael ar gyfer gwaith cynnal a chadw adeiladau ysgolion ac at ganlyniadau'r archwiliad o'r trefniadau caffael ar gyfer adeiladu. Roedd adroddiad SAC wedi nodi ffigur o oddeutu £0.5m ar gyfer caffael dan gyfarwyddyd y Cyngor ar gyfer cynnal a chadw adeiladau ysgolion. Esboniodd fod y Prif Gyfrifydd wedi darparu ffigurau ar gyfer y flwyddyn ariannol bresennol a nodai ffigur o £28.4m o wariant cyfalaf ar gyfer caffael adeiladu a £9.3m ar gyfer refeniw, gan wneud cyfanswm o £37.7m y flwyddyn. Roedd hwn yn llawer mwy nag yr oedd adroddiad SAC wedi'i nodi ac, yn ei farn ef, roedd wedi amlygu mater llywodraethu pwysig o safbwynt y gwaith a wnaed. Cyfeiriodd Mr Whitham hefyd at yr adroddiad anffafriol a ddaeth i law yn flaenorol o safbwynt Adnoddau Dynol Strategol a'r ystyriaethau cyllidebol perthnasol a ddarparai ffigurau tebyg; cyfeiriwyd yn benodol at effaith rheolau gweithdrefnau contractau ar y ffigurau cyllideb a ddarparwyd. Mynegodd y farn y gallai'r Rheolau Gweithdrefnau Contractau a Chaffael ar gyfer Adeiladu gael eu hystyried fel materion llywodraethu

ar wahân, a chytunodd y PAM i gysylltu â'r Pennaeth Cyllid ac Asedau (PCA) ynglŷn â'r mater hwn.

Cyfeiriodd y PGCD at y gwaith y mae'r PCA yn ei wneud ar hyn o bryd o safbwynt materion Caffael a rheolau gweithdrefnau contractau a chadarnhaodd y byddai adroddiad ar y mater hwn yn cael ei gyflwyno gerbron y Cabinet ar y 27ain Mai, 2014. Nododd y PAM sylwadau Aelodau'r Pwyllgor.

Mewn ymateb i bryderon a fynegwyd gan y Cynghorydd J. Butterfield fod yr arolwg diweddaraf o drigolion wedi dangos nad oedd y rhan fwyaf o bobl yn teimlo eu bod yn cael gwybodaeth ddigonol am berfformiad y Cyngor nac am amrywiol bethau eraill y gofynnwyd amdanynt yn yr arolwg, esboniodd y PAM y byddai'r mater hwn yn cael sylw ac yn cael ei gynnwys yn yr adroddiad sydd i'w gyflwyno i'r Pwyllgor ym Medi, 2014.

***PENDERFYNWYD*** *– bod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn derbyn yr adroddiad ac yn nodi sylwadau'r Aelodau.*

## 12 PROSES CYLLIDEB 2015/16

Roedd adroddiad gan y Pennaeth Cyllid ac Asedau, a roddai ddiweddariad ar y broses o gyflwyno'r gyllideb refeniw ar gyfer 2015/16 wedi'i gylchredeg yn flaenorol.

Rhoddai'r adroddiad drosolwg ar broses y gyllideb i'r Pwyllgor. Ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor, y prif weithgaredd fu cyflwyno papur ar broses y gyllideb i gyfarfod Briffio'r Cyngor ar 28ain Ebrill a chadarnhau'r dyddiadau ar gyfer y gweithdy ar y gyllideb i'r aelodau. Roedd gwahoddiadau'n awr wedi'u hanfon at yr holl Aelodau ac roedd manylion gweithdai Gorffennaf wedi'u cynnwys yn Nhabl 1 o'r adroddiad. Roedd y cyfarfodydd cyllid Rhyddid a Hyblygrwydd gyda gwasanaethau, arweinyddion gwasanaethau, aelodau a'r TGC oll wedi'u trefnu ac roedd yr amserlen wedi'i chynnwys yn Nhabl 2 yn yr adroddiad.

Darparodd y Prif Gyfrifydd ddiweddariad ar ganlyniad y ddau gyfarfod cyllideb Rhyddid a Hyblygrwydd cyntaf gyda gwasanaethau, a oedd yn cynnwys Gwasanaethau Oedolion a Busnes a Busnes, Gwella a Moderneiddio. Esboniwyd y byddai'r daenlen sy'n amlinellu manylion y gyllideb a nodiadau o'r canlyniad yn cael eu rhyddhau yn y dyfodol agos. Esboniodd y Prif Gyfrifydd fod y ddau Gyfarfod Cyllideb gyda Gwasanaethau wedi cael eu hadolygu yn y TGC a bod y broses wedi cael ei diwygio ychydig. Cadarnhawyd bod y tabl o'r Prif Ddigwyddiadau heb newid llawer a bod fersiwn ddiweddar wedi'i darparu i'r Pwyllgor.

Ymatebodd y Prif Gyfrifydd i gwestiynau gan yr Aelodau gan gadarnhau bod rheoli cyllidebau'r Cyngor yn effeithiol a chyflenwi'r strategaeth cyllideb y cytunwyd arni yn sylfaen i'r gweithgareddau ym mhob maes, gan gynnwys blaenoriaethau corfforaethol. Byddai angen i'r Cyngor sicrhau arbedion o oddeutu £12m dros y ddwy flynedd ariannol nesaf ac roedd y broses wedi'i hystyried gan y TGC, yr UDA, cyfarfod Briffio'r Cabinet, cyfarfod Briffio'r Cyngor a'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cadeirydd, esboniodd y Prif Gyfrifydd y ceid trosolwg ar ddatganoli swyddogaethau Cynghorau Tref a Chynghorau Cymuned fel rhan o’r broses, ac y byddai hyn yn cael sylw drwy gyfrwng y gwasanaethau unigol.

Esboniodd Mr P. Whitham fod ei bresenoldeb yn y cyfarfodydd briffio wedi bod o fudd a chytunwyd i’w wahodd i gyfarfodydd briffio i’r dyfodol.

***PENDERFYNWYD*** *– bod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn derbyn ac yn nodi’r adroddiad.*

## 13 ADBORTH AR Y CYFARFOD CYDRADDOLDEB CORFFORAETHOL

Esboniodd y Cynghorydd M.L. Holland nad oedd y Grŵp Cydraddoldeb Corfforaethol wedi cwrdd ers cyflwyno’r adroddiad blaenorol i’r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol.

## 14 RHAGLEN WAITH Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL

Cyflwynwyd Blaen-raglen Waith (BrW) y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol (wedi’i chylchredeg yn flaenorol) i’w hystyried.

Cadarnhaodd y Pwyllgor Flaen-raglen Waith y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol, yn amodol ar y diwygiadau canlynol:-

**2il Gorffennaf, 2014**:-

- Yr adborth ar y Cyfarfod Cydraddoldeb Corfforaethol i gael ei dynnu’n ôl.
- Y Diweddariad ar Gaffael Gwasanaethau Adeiladu i gael ei symud i 3ydd Medi, 2014.
- Yr Adroddiad ar y Cwmnïau Hyd Braich i gael ei gyflwyno gan y Pennaeth Archwilio Mewnol.
- Adroddiad Gwelliant Swyddfa Archwilio Cymru i gael ei gynnwys.
- Datganiad Cyfrifon drafft 2013/14 i gael ei gynnwys.
- Llythyr Ffioedd Swyddfa Archwilio Cymru i gael ei gynnwys.

**29ain Medi, 2014**:-

- Datganiad Cyfrifon terfynol 2013/14 i gael ei gynnwys.
- Adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ar Ddatganiad Cyfrifon Terfynol 2013/14 i gael ei gynnwys.

Cyfeiriodd Mr P. Whitham at yr adroddiadau rheolaidd y cytunwyd i’w cynnwys ar yr agenda o safbwynt:-

- Adolygu’r Gofrestr Risg Gorfforaethol.
- Adolygu’r Cynnydd ar Gynllun Gweithredu Llywodraethu Corfforaethol.
- Diweddariad ar Reoli Gwybodaeth.
- Adroddiad Rheolwyr y Trysorlys.

Cytunodd y PGCD i gysylltu â’r Cadeirydd a’r Pennaeth Archwilio Mewnol ynglŷn â chynnwys yr eitemau busnes uchod ym Mlaen-raglen Waith y Pwyllgor. Cytunodd hefyd i gysylltu â’r Rheolwr Gwybodaeth Gorfforaethol ynglŷn â’r adroddiad Rheoli Gwybodaeth.

Diolchodd y Pwyllgor i’r Cadeirydd  a Mr Paul Whitham, Aelod Lleyg, am y gwaith a wnaethant gyda’r Pwyllgor.

***PENDERFYNWYD*** *– bod y Pwyllgor, yn amodol ar yr uchod, yn cymeradwyo’r Blaen-raglen Waith.*

Daeth y cyfarfod i ben am 12.20 p.m.